**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD**

**Dyddiad: 12 Ebrill 2000**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2**

**Teitl: Cymhorthion Gwladwriaethol Newydd**

**Pwrpas**

1 Mae'r gweithgor a sefydlwyd i archwilio dulliau newydd o helpu gweithgareddau cwmnïau yn ardal rhan-ddirymiad 87(3)(a) bellach wedi gorffen ei waith. Mae'r papur hwn yn disgrifio ei argymhellion ar gyfer mathau newydd o gymorth, a gwahoddir y Pwyllgor i fynegi barn yn eu cylch.

**Crynodeb**

2 Mae'r papur yn cynnwys disgrifiadau manwl o sawl rhaglen bosibl, ynghyd â'u costau posibl. Mae'n argymell bod tair o'r rhain yn cael eu llunio yn rhaglenni newydd gan y partneriaid perthnasol a'u bod, lle bo angen, yn cael eu rhoi ger bron Cyfarwyddiaeth Gystadleuaeth y Comisiwn Ewropeaidd i'w cymeradwyo. Mae hefyd yn rhoi disgrifiad cryno o nifer o bosibiliadau eraill y mae'r gweithgor wedi'u hystyried, ond sydd, am ryw reswm neu'i gilydd, wedi cael eu gwrthod.

3. Rhestr o Atodiadau:

Atodiad A: Rhestr o syniadau yr argymhellir eu bod yn cael eu creu yn rhaglenni gweithredol, gyda'u costau tybiedig;

Atodiad B: Cymorth Gofal Plant ar gyfer Rhieni Sengl sy'n dechrau busnes newydd;

Atodiad C: Cymorth i Bobl Anabl sy'n dechrau busnes newydd;

Atodiad D: Pedwar Cynllun i helpu hyfforddiant mewn Cwmnïau Bach

Atodiad E: Cynlluniau Amgylcheddol;

Atodiad F: Cynllun Rhannu Swyddi

Atodiad G: Cynlluniau a Wrthodwyd

Atodiad H: Awgrymiadau oddi wrth Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

**Cefndir**

4 Roedd y gweithgor cymhorthion gweithredu yn cynnwys cynrychiolwyr o blith:

Busnes Cymru;

Awdurdod Datblygu Cymru;

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;

Fforwm Economaidd Gogledd Cymru;

Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru;

Cyngor TEC's Cymru;

Ffederasiwn Busnesau Bach;

Y Gwasanaeth Cyflogi

5 Ystyriodd y Pwyllgor bapur dros dro ar 1 Rhagfyr ac awgrymodd bosibiliadau eraill y dylai'r gweithgor eu harchwilio. Dyma yw'r rhan fwyaf o'r rhaglenni a ystyriwyd yn y papur hwn.

6 O blith y rhaglenni yn y papur diwethaf, mae'r awgrym a roddwyd ger bron Canghellor y Trysorlys y dylai'r credyd treth a roddir i BBaCh'au ar gyfer Ymchwil a Datblygu gael ei ddyblu yn ardal rhan-ddirymiad 87(3)(a) wedi cael ei wrthod oherwydd y gost o weinyddu system dreth wahanol mewn gwahanol ardaloedd ym Mhrydain, ac oherwydd bod y Trysorlys o'r farn mai'r ffordd o ddelio â phroblemau rhanbarthol yw rhoi blaenoriaeth i wariant cyhoeddus a hynny o blaid ardaloedd sy'n cael anhawster. Yn unol â hynny, mae cynigion ar y gweill i wella SMART Cymru, pecyn o raglenni presennol sy'n cefnogi arloesedd. Gan fod SMART Cymru ar hyn o bryd yn seiliedig ar gystadlaethau blynyddol, ni ellir rhoi unrhyw newidiadau mewn grym tan 2001-02.

7 Un o'r awgrymiadau a wnaeth y Pwyllgor ar 1 Rhagfyr oedd y dylid ystyried cefnogi arloesedd yn y diwydiannau creadigol. Ni wnaed unrhyw argymhellion ynghylch hyn. Fodd bynnag, mae'r Cyrff a Noddir gan y Cynulliad, sy'n gyfrifol am y diwydiannau creadigol, wedi cael eu gwahodd i ystyried beth yw'r posibilrwydd o roi cefnogaeth i ddatblygu cynnyrch creadigol newydd.

8 Mae swyddogion hefyd wedi bod mewn cysylltiad ag ardaloedd rhan-ddirymiad 87(3)(a) eraill. Fodd bynnag, ni ddaeth unrhyw syniadau newydd i'r fei yn sgîl hynny.

**Cydymffurfio**

9 Mae Adran 2 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973 yn darparu ar gyfer y swyddogaeth o helpu personau neilltuol i ddewis, hyfforddi, cael a chadw

cyflogaeth; i helpu pobl i gael cyflogwyr addas. Mae’r adran hon yn cwmpasu cynlluniau yn atodiadau B,C a D(I) i (iv). Mae Adran 11 o Ddeddf Datblygu Diwydiant 1982 yn darparu ar gyfer swyddogaeth gweithgareddau arferion gorau. Mae’r adran hon yn cwmpasu cynlluniau a ddisgrifir yn atodiad E. Mae’r holl gymeradwyaethau angenrheidiol yn cael eu cwmpasu yn y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau, a rhoddwyd dirprwyaeth briodol i’r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd. Nid oes materion eraill o gysonder neu briodoldeb, ac nid yw’r rhain yn gynigion newydd neu ddadleuol. Ymgynghorwyd â Swyddfa Gydymffurfio y Cynulliad ac maent yn fodlon â’r agweddau cydymffurfio.

**Argymhellion**

10 Mae Atodiad A yn rhestru’n fras y syniadau yr argymhellir eu bod yn cael eu llunio yn rhaglenni gweithredol ac yn pennu faint y disgwylir iddynt gostio. Disgrifir y rhaglenni yn fwy manwl yn Atodiadau B-E. Gallai’r rhaglenni hyn ffurfio rhan o’r gyfres nesaf o raglenni y cynigir eu bod yn cael eu hariannu o Gronfa’r Ffordd i Ffyniant.

11 Mae Atodiadau F a G yn disgrifio cynlluniau sydd wedi cael eu hystyried gan y gweithgor, a hynny’n fanwl iawn ambell dro. Maes o law daethpwyd i’r casgliad nad oeddynt yn addas i’w hystyried ymhellach.

12 Mae Atodiad H yn cynnwys llythyr oddi wrth y Ffederasiwn Busnesau Bach yn cynnig awgrymiadau, ynghyd â nodyn oddi wrth Ymgynghorydd Economaidd y Cynulliad yn asesu’r cynigion, ac ni ystyrir bod yr un ohonynt yn addas i’w hystyried ymhellach.

13 Cynhwyswyd Cynllun Cymorth Yswiriant Gwladol yn y papur ar gyfer y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 1 Rhagfyr (Atodiad C). Y cyngor a gafwyd oedd y byddai’r cyfryw gynllun yn ddrud iawn ac yn aneffeithiol, ac na ddylid, felly, gario ymlaen ag ef.

**Camau i’r Pwyllgor eu cymryd**

14 Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno:

- y dylai’r pedwar cynllun a ddisgrifir yn Atodiadau B-E fod yn sail i gynigion ar gyfer y gyfres nesaf o raglenni’r Ffordd i Ffyniant; ac
- y dylai’r cynlluniau a ddisgrifir yn Atodiad D gael eu cyflwyno ger bron Cyfarwyddiaeth Gystadleuaeth y Comisiwn Ewropeaidd fel Cymhorthion Gwladwriaethol newydd, o dan y Fframwaith ar gyfer Cymhorthion Hyfforddiant. Dylid cyflwyno’r cynllun a ddisgrifir yn Atodiad E o dan y Fframwaith Amgylcheddol arfaethedig, pan fydd y Comisiwn wedi cytuno ar y cyfryw Fframwaith.

ATODIAD A

| Disgrifiad | Allbwn<br><br>(Y flwyddyn) | Cyllido 2001-2002<br><br>£000 | Amcan Gwell Cymru |
|---|---|---|---|
| Cymorth Gofal Plant i Rieni Sengl sy'n dechrau busnes newydd | Targed - 370 y flwyddyn | 610 | Adeiladu economi uwch mwy cystadleuol ynghyd â sector busnesau bach a chanolig deinamig. |
| Cymorth ar gyfer Pobl Anabl sy'n dechrau busnes newydd | 50 | 190 | Cynyddu nifer y swyddi a gostwng gweithgarwch economaidd, yn enwedig mewn ardaloedd llai ffyniannus |
| Cyfle i fanteisio ar Brentisiaethau Modern a Hyfforddeiaethau Cenedlaethol | 800 | 2000 | Buddsoddi mwy mewn pobl a |
| Anogaeth ariannol i gwmnïau bach sy'n ennill Buddsoddwyr mewn Pobl | 1000<br><br>ILA | 300 | dysgu gydol oes fel y gall pawb, yn enwedig ein hieuenctid, gael yr ystod o |
| Gwella rheolaeth a datblygu'r gweithlu mewn cwmnïau bach | 200<br><br>cwmni | 1000 | wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial a |
| Grantiau hyfforddiant ar gyfer perchnogion cwmnïau bach | 1500<br><br>o gwmnïau | 350 | ffynnu yn yr economi newydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Menter Systemau Rheolaeth Amgylcheddol (EMS) | 83 cwmni gydag EMS<br><br>50 ISO newydd<br><br>14001 ardystiadau newydd<br><br>7 ardystiad EMAS newydd<br><br>2 Menter Dolen Gyflenwi newydd | 177 | Ysgogi datblygiad sy'n gwarchod adnoddau naturiol |
| Hyrwyddo Nwyddau a Gwasanaethau Amgylcheddol | Gwasanaethu sylfaen o 330 o gwmnïau presennol<br><br>90 o swyddi newydd<br><br>Helpu i sefydlu 6 cwmni newydd | 223 | ac sy'n parchu'r amgylchedd |

**CYFANSW 4,850**